



RHESTR O WELLIANNAU WEDI’U DIDOLI MARSHALLED LIST OF AMENDMENTS

Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) Human Transplantation (Wales) Bill

Mae’r gwelliannau â * ar eu pwys yn rhai newydd neu’n rhai sydd wedi’u haddasu
Amendments marked * are new or have been altered

Mae’r testun mewn italig wedi’i ddarparu gan y sawl a gynigiodd y gwelliant perthnasol I
esbonio ei ddiben ac i gynorthwyo’r darlennydd. Nid yw’r testun yn rhan o eiriad y
gwelliant.

The text in italics has been provided by the proposer of the relevant amendment to explain
its purpose and to aid the reader’s understanding. The text does not form part of the
amendment.

Caiff y Bil ei ystyried yn y drefn a ganlyn –
The Bill will be considered in the following order –
Sections 1 - 20 Adrannau 1 - 20

Mark Drakeford

1

Section 2, page 1, after line 29, insert –

- ‘() The duty under subsection (1) includes in particular an obligation on the Welsh Ministers, at least once every 12 months, to promote a campaign for the purpose of informing the public throughout Wales about the circumstances in which consent to transplantation activities is deemed to be given in the absence of express consent.
- () The Welsh Ministers must, for the first five years after this section comes into force, report annually to the National Assembly for Wales on the steps taken to fulfil their duty under subsection (1).’

Adran 2, tudalen 1, ar ôl llinell 29, mewnosoder –

- ‘() Mae’r ddyletswydd o dan is-adran (1) yn cynnwys, yn benodol, rwymedigaeth ar Weinidogion Cymru i hyrwyddo, o leiaf unwaith bob 12 mis, ymgyrch i hysbysu’r cyhoedd ledled Cymru am yr amgylchiadau lle yr ystyrir bod cydsyniad i weithgareddau trawsblannu wedi ei roi yn absenoldeb cydsyniad datganedig.
- () Rhaid i Weinidogion Cymru, am y pum mlynedd gyntaf ar ôl i’r adran hon ddod i rym, adrodd yn flynyddol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar y camau a gymerwyd i gyflawni eu dyletswyddau o dan is-adran (1).’.

Elin Jones

40

Section 2, page 1, after line 29, insert –

- ‘(d) ensure that the resources available to Local Health Boards include the specialist skills and competencies required for the purposes of this Act.’.

The purpose of this amendment is to ensure that the Minister/LHBs have a duty to create specialist nurse posts, or other requirements, for the purpose of promoting organ donation.

Adran 2, tudalen 1, ar ôl llinell 29, mewnosoder –

- ‘(d) sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael i Fyrddau Iechyd Lleol yn cynnwys y cymwyseddau a’r sgiliau arbenigol sy’n ofynnol at ddibenion y Ddeddf hon.’.

Diben y gwelliant hwn yw sicrhau bod gan y Gweinidog/byrddau iechyd lleol ddyletswydd i greu swyddi niwsys arbenigol, neu ofynion eraill, at ddiben hyrwyddo rhoi organau.

Angela Burns

66

Gyda chefnogaeth / Supported by: Antoinette Sandbach

Section 2, page 1, after line 29, insert –

- ‘() The duty under subsection (1) includes in particular an obligation on the Welsh Ministers to provide information, at least once every 12 months, to those aged 15 to 17 years about the circumstances in which consent to transplantation activities is deemed to be given in the absence of express consent.’.

This amendment would ensure that a specific awareness campaign targeted at 15 to 17 year olds takes place at least one every 12 months.

Adran 2, tudalen 1, ar ôl llinell 29, mewnosoder –

- ‘() Mae’r ddyletswydd o dan is-adran (1) yn cynnwys, yn benodol, rwymedigaeth ar Weinidogion Cymru i ddarparu gwybodaeth, o leiaf unwaith bob 12 mis, i’r rhai sydd rhwng 15 a 17 oed ynghylch yr amgylchiadau lle yr ystyrir bod cydsyniad wedi ei roi yn absenoldeb cydsyniad datganedig.’.

Byddai’r gwelliant hwn yn sicrhau bod ymgyrch ymwybyddiaeth benodol wedi’i thargedu at bobl rhwng 15 a 17 oed yn cael ei chynnal o leiaf unwaith bob 12 mis.

Angela Burns

67

Gyda chefnogaeth / Supported by: Antoinette Sandbach

To insert a new section –

‘Review of system of consent

() Duty of the Welsh Ministers to review the system of consent

Within a period of 5 years of commencement of the Act pursuant to section 19(2), the Welsh Ministers must review the system of consent as introduced by section 4. ’.

This amendment would require Ministers to review the system of consent within 5 years of the commencement of the Act.

I fewnosod adran newydd –

‘Adolygu’r system gydsynio

() Dyletswydd Gweinidogion Cymru i adolygu’r system gydsynio

O fewn cyfnod o 5 mlynedd i gychwyn y Ddeddf yn unol ag adran adran 19(2), rhaid i Weinidogion Cymru adolygu’r system gydsynio fel y’i cyflwynwyd gan adran 4. ’.

Byddai’r gwelliant hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion adolygu’r system gydsynio o fewn 5 mlynedd i gychwyn y Ddeddf.

Mark Drakeford

2

Section 4, page 2, leave out lines 26 to 27.

Adran 4, tudalen 2, hepgorer llinellau 28 hyd at 29.

Darren Millar

41

Section 4, page 2, after line 27, insert –

‘() Where consent is deemed a transplantation activity cannot proceed in the absence of a person who stood in a qualifying relationship to the deceased before death.’.

This amendment prevents transplantation under deemed consent from going ahead if a person in a qualifying relationship is not present.

Adran 4, tudalen 2, ar ôl llinell 29, mewnosoder –

‘() Pan ystyrir bod cydsyniad wedi ei roi, ni ellir cynnal gweithgaredd trawsblannu yn absenoldeb person a oedd mewn perthynas gymhwysol â’r ymadawedig cyn iddo farw.’.

Mae’r gwelliant hwn yn gwahardd cynnal trawsblaniad yn absenoldeb person a oedd mewn perthynas gymhwysol.

Darren Millar

3A

As an amendment to amendment 3, line 2, column 1, leave out ‘or persons’.

This amendment relates to the introduction of the requirement for only one appointed representative, to eliminate the possibility of disputes arising between appointed representatives.

Fel gwelliant i welliant 3, llinell 3, colofn 1, hepgorer ‘neu bersonau’.

Mae’r gwelliant hwn yn ymwneud â chyflwyno’r gofyniad i benodi un cynrychiolydd yn unig, er mwyn cael gwared ar y posibilrwydd o anghydfod rhwng cynrychiolwyr penodedig.

Mark Drakeford

3

Section 4, page 3, Table 1, after line 7, column 1, insert –

3. The person has died, case 2 does not apply, the person had appointed a person or persons to deal with the issue of consent in relation to the activity and someone is able to give consent under the appointment.	
--	--

Adran 4, tudalen 3, Tabl 1, ar ôl llinell 7, colofn 1, mewnosoder –

3. Mae’r person wedi marw, nid yw achos 2 yn gymwys, yr oedd y person wedi penodi person neu bersonau i ymdrin â’r mater o gydsynio mewn perthynas â’r gweithgaredd ac mae rhywun yn gallu rhoi cydsyniad o dan y penodiad.	
---	--

Darren Millar

42

Section 4, page 3, Table 1, leave out lines 8 to 9, column 2.

This amendment relates to the introduction of the requirement for only one appointed representative, to eliminate the possibility of disputes arising between appointed representatives.

Adran 4, tudalen 3, Tabl 1, hepgorer llinellau 8 hyd at 9, colofn 2.

Mae’r gwelliant hwn yn ymwneud â chyflwyno’r gofyniad i benodi un cynrychiolydd yn unig, er mwyn cael gwared ar y posibilrwydd o anghydfod rhwng cynrychiolwyr penodedig.

Mark Drakeford

4

Section 4, page 3, Table 1, leave out lines 8 to 11, column 1.

Adran 4, tudalen 3, Tabl 1, hepgorer llinellau 8 hyd at 11, colofn 1.

Darren Millar

43

Section 4, page 3, Table 1, after line 11, column 1, insert –

3. The person has died, case 2 does not apply and the person had appointed a person to deal with the issue of consent in relation to the activity.	
--	--

This amendment relates to the introduction of the requirement for only one appointed representative, to eliminate the possibility of disputes arising between appointed representatives.

Adran 4, tudalen 3, Tabl 1, ar ôl llinell 11, colofn 1, mewnosoder –

3. Mae'r person wedi marw, nid yw achos 2 yn gymwys ac yr oedd y person wedi penodi person i ymdrin â'r mater o gydsynio mewn perthynas â'r gweithgaredd.	
---	--

Mae'r gwelliant hwn yn ymwneud â chyflwyno'r gofyniad i benodi un cynrychiolydd yn unig, er mwyn cael gwared ar y posibilrwydd o anghydfod rhwng cynrychiolwyr penodedig.

Mark Drakeford

5

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version.

Adran 4, tudalen 3, Tabl 1, ar ôl llinell 11, colofn 2, mewnosoder –

	Cydsyniad person y mae perthynas gymhwysol rhyngddo â'r person cyn iddo farw.
--	---

Darren Millar

44

Section 4, page 3, Table 1, after line 11, column 2, insert –

	Consent given by the person appointed.
--	--

This amendment relates to the introduction of the requirement for only one appointed representative, to eliminate the possibility of disputes arising between appointed representatives.

Adran 4, tudalen 3, Tabl 1, ar ôl llinell 11, colofn 2, mewnosoder –

	Cydsyniad a roddir gan y person a benodir.
--	--

Mae'r gwelliant hwn yn ymwneud â chyflwyno'r gofyniad i benodi un cynrychiolydd yn unig, er mwyn cael gwared ar y posibilrwydd o anghydfod rhwng cynrychiolwyr penodedig.

Darren Millar

45

Section 4, page 3, Table 1, leave out lines 12 to 16, column 1.

This amendment relates to the introduction of the requirement for only one appointed representative, to eliminate the possibility of disputes arising between appointed representatives.

Adran 4, tudalen 3, Tabl 1, hepgorer llinellau 12 hyd at 17, colofn 1.

Mae'r gwelliant hwn yn ymwneud â chyflwyno'r gofyniad i benodi un cynrychiolydd yn unig, er mwyn cael gwared ar y posibilrwydd o anghydfod rhwng cynrychiolwyr penodedig.

Mark Drakeford

6

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version.

Adran 4, tudalen 3, Tabl 1, hepgorer llinellau 12 hyd at 17, colofn 2.

Darren Millar

46

Section 4, page 3, Table 1, after line 16, column 1, insert –

4. The person has died, case 2 does not apply and the person had appointed a person to deal with the issue of consent in relation to the activity, but no one is able to give consent under the appointment.	
--	--

This amendment relates to the introduction of the requirement for only one appointed representative, to eliminate the possibility of disputes arising between appointed representatives.

Adran 4, tudalen 3, Tabl 1, ar ôl llinell 17, colofn 1, mewnosoder –

4. Mae'r plentyn wedi marw, nid yw achos 2 yn gymwys ac yr oedd y person wedi penodi person i ymdrin â'r mater o gydsynio mewn perthynas â'r gweithgaredd, ond nid oes neb yn gallu rhoi cydsyniad o dan y penodiad.	
--	--

Mae'r gwelliant hwn yn ymwneud â chyflwyno'r gofyniad i benodi un cynrychiolydd yn unig, er mwyn cael gwared ar y posibilrwydd o anghydfod rhwng cynrychiolwyr penodedig.

Darren Millar

47

Section 4, page 3, line 18, leave out 'relative or friend of long standing of' and insert 'person who stood in a qualifying relationship to'.

This amendment precludes the consent of the deceased from being deemed where a person in a qualifying relationship objects to transplantation on the basis of the views of the deceased or the likely views of the deceased.

Adran 4, tudalen 3, llinell 19, hepgorer ‘perthynas neu gyfaill ers amser maith i’r’ a mewnosoder ‘person a oedd mewn perthynas gymhwysol â’r’.

Mae’r gwelliant hwn yn eithrio ystyried bod cydsyniad yr ymadawedig wedi ei roi os yw person mewn perthynas gymhwysol yn gwrthwynebu’r trawsblaniad ar sail barn yr ymadawedig neu farn debygol yr ymadawedig.

Darren Millar

48

Section 4, page 3, line 19, after ‘deceased,’ insert –
‘or

- (i) the likely views of the deceased,’.

This amendment precludes the consent of the deceased from being deemed where a person in a qualifying relationship objects to transplantation on the basis of the views of the deceased or the likely views of the deceased.

Adran 4, tudalen 3, llinell 20, ar ôl ‘ymadawedig’, mewnosoder –
‘neu

- (i) barn debygol yr ymadawedig,’.

Mae’r gwelliant hwn yn eithrio ystyried bod cydsyniad yr ymadawedig wedi ei roi os yw person mewn perthynas gymhwysol yn gwrthwynebu’r trawsblaniad ar sail barn yr ymadawedig neu farn debygol yr ymadawedig.

Darren Millar

49

Section 4, page 3, line 20, leave out ‘relative or friend’ and insert ‘person who stood in a qualifying relationship’.

This amendment precludes the consent of the deceased from being deemed where a person in a qualifying relationship objects to transplantation on the basis of the views of the deceased or the likely views of the deceased.

Adran 4, tudalen 3, llinell 21, hepgorer ‘perthynas neu’r cyfaill’ a mewnosoder ‘person a oedd mewn perthynas gymhwysol’.

Mae’r gwelliant hwn yn eithrio ystyried bod cydsyniad yr ymadawedig wedi ei roi os yw person mewn perthynas gymhwysol yn gwrthwynebu’r trawsblaniad ar sail barn yr ymadawedig neu farn debygol yr ymadawedig.

Darren Millar

50

Section 4, page 3, line 22, after ‘given’, insert –
‘, or

- (i) the likely view of the deceased before death on consent for transplantation activities was that the deceased was opposed to consent being given’.

This amendment precludes the consent of the deceased from being deemed where a person in a qualifying relationship objects to transplantation on the basis of the views of the deceased or the likely views of the deceased.

Adran 4, tudalen 3, llinell 24, ar ôl 'roi', mewnosoder –
'neu

- (i) barn debygol yr ymadawedig cyn iddo farw ar gydsynio i weithgareddau trawsblannu oedd bod yr ymadawedig yn gwrthwynebu i gydsyniad gael ei roi'.

Mae'r gwelliant hwn yn eithrio ystyried bod cydsyniad yr ymadawedig wedi ei roi os yw person mewn perthynas gymhwysol yn gwrthwynebu'r trawsblaniad ar sail barn yr ymadawedig neu farn debygol yr ymadawedig.

Darren Millar

51

Section 4, page 3, after line 22, insert –

- '() Where Case 1 or Case 2 applies the express consent of the person cannot be overridden by a person in a qualifying relationship to the person immediately before death unless it is established that the express consent of the person has been expressly or impliedly withdrawn.'

This amendment provides that the express consent of the deceased, whether opt in or opt out, cannot be overridden by the views of those in a qualifying relationship to the deceased unless it can be established that the consent has been expressly or impliedly withdrawn.

Adran 4, tudalen 3, ar ôl llinell 24, mewnosoder –

- '() Pan fo Achos 1 neu Achos 2 yn gymwys, ni ellir gwrthwneud cydsyniad datganedig y person gan berson a oedd mewn perthynas gymhwysol â'r ymadawedig yn union cyn iddo farw oni chadarnheir bod cydsyniad datganedig y person wedi ei dynnu yn ôl drwy ddatgan neu awgrymu hynny.'

Mae'r gwelliant hwn yn datgan na ellir gwrthwneud cydsyniad datganedig, p'un a yw'n gydsyniad i optio i mewn neu i optio allan, gan farn y rhai a oedd mewn perthynas gymhwysol â'r ymadawedig oni bai y gellir cadarnhau bod y cydsyniad wedi cael ei dynnu'n ôl drwy ddatgan neu awgrymu hynny.

Mark Drakeford

7

Section 4, page 3, line 23, leave out subsection (5).

Adran 4, tudalen 3, llinell 25, hepgorer is-adran (5).

Darren Millar

52

Section 4, page 3, line 25, leave out 'or persons'.

This amendment relates to the introduction of the requirement for only one appointed representative, to eliminate the possibility of disputes arising between appointed representatives.

Adran 4, tudalen 3, llinell 27, hepgorer 'neu bersonau'.

Mae'r gwelliant hwn yn ymwneud â chyflwyno'r gofyniad i benodi un cynrychiolydd yn unig, er mwyn cael gwared ar y posibilrwydd o anghydfod rhwng cynrychiolwyr penodedig.

Mark Drakeford

8

Section 4, page 3, after line 26, insert –

‘(7) This section does not apply to consent for a transplantation activity that involves removal of excluded relevant material (for provision in relation to which see section []).’.

Adran 4, tudalen 3, ar ôl llinell 28, mewnosoder –

‘(7) Nid yw’r adran hon yn gymwys i gydsyniad i weithgaredd trawsblannu sy’n ymwneud â thynnu deunydd perthnasol a eithrir (gweler adran []) am ddarpariaeth mewn perthynas â hyn).’.

Darren Millar

53

Section 5, page 3, after line 34, insert –

‘() an adult, not otherwise ordinarily resident in Wales, who has died and was considered ordinarily resident in Wales for the period specified in subsection (3) (a) immediately before dying by reason only of serving a term of imprisonment,’.

This amendment would remove those prisoners who are only resident in Wales as a consequence of their imprisonment from the deemed consent system.

Adran 5, tudalen 3, ar ôl llinell 36, mewnosoder –

‘() oedolyn, nad oedd fel arall yn preswyllo fel arfer yng Nghymru, sydd wedi marw ac yr ystyrid ei fod yn preswyllo fel arfer yng Nghymru am y cyfnod a bennir yn is-adran (3)(a) yn union cyn iddo farw dim ond am ei fod yn y carchar,’.

Byddai’r gwelliant hwn yn eithrio o’r system cydsynio tybiedig y carcharorion hynny a oedd ond yn preswyllo yng Nghymru oherwydd eu bod yn y carchar.

Darren Millar

54

Section 5, page 3, after line 34, insert –

‘() an adult (‘A’), not otherwise ordinarily resident in Wales, who has died and was ordinarily resident in Wales the period specified in subsection (3)(a) immediately before dying wholly or mainly for the purposes of service in the naval, military or air forces, and for this purpose ‘A’ includes ‘A’s partner and all other adults comprising ‘A’s household.’.

This amendment would remove those armed forces personnel who are only resident in Wales as a consequence of their service (and their families) from the deemed consent system.

Adran 5, tudalen 3, ar ôl llinell 36, mewnosoder –

‘() oedolyn (‘A’), nad oedd fel arall yn preswyllo fel arfer yng Nghymru, sydd wedi marw ac yr ystyrir ei fod yn preswyllo fel arfer yng Nghymru am y cyfnod a bennir yn is-adran (3)(a) yn union cyn iddo farw yn llwyr neu’n bennaf at ddibenion gwasanaethu yn y lluoedd môr, y lluoedd arfog neu’r lluoedd awyr, ac at y diben hwn mae ‘A’ yn cynnwys partner ‘A’, a phob oedolyn arall sy’n rhan o aelwyd ‘A’.

Byddai’r gwelliant hwn yn eithrio o’r system cydsynio tybiedig y rhai sy’n gwasanaethu yn y lluoedd arfog (a’u teuluoedd) a oedd ond yn preswyllo yng Nghymru o ganlyniad i’w gwasanaeth.

Darren Millar

55

Section 5, page 3, after line 34, insert –

‘() an adult, not otherwise ordinarily resident in Wales, who has died and was ordinarily resident in Wales for the period specified in subsection (3)(a) immediately before dying by reason only of being detained under the Mental Health Act 1983 in a facility in Wales, or’.

This amendment would remove those detained under the Mental Health Act 1983 who are only resident in Wales as a consequence of their detention from the deemed consent system.

Adran 5, tudalen 3, ar ôl llinell 36, mewnosoder –

‘() oedolyn, nad oedd fel arall yn preswyllo fel arfer yng Nghymru, sydd wedi marw ac yr ystyrir ei fod yn preswyllo fel arfer yng Nghymru am y cyfnod a bennir yn is-adran (3)(a) yn union cyn iddo farw dim ond am ei fod wedi’i gadw mewn cyfleuster yng Nghymru o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, neu’.

Byddai’r gwelliant hwn yn eithrio o’r system cydsynio tybiedig y rheini a oedd ond yn preswyllo yng Nghymru oherwydd eu bod yn cael eu cadw yng Nghymru o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

Angela Burns

68

Gyda chefnogaeth / Supported by: Antoinette Sandbach

Section 5, page 3, after line 34, insert –

‘() an adult with recognised learning difficulties or who is otherwise vulnerable, or’.

This amendment would ensure that any individual who is recognised to have learning difficulties, or is vulnerable, is excluded from the system of deemed consent.

Adran 5, tudalen 3, ar ôl llinell 36, mewnosoder –

‘() oedolyn sydd ag anawsterau dysgu cydnabyddedig neu sydd fel arall yn hyglwyf, neu’.

Byddai’r gwelliant hwn yn sicrhau bod unrhyw unigolyn sy’n cael ei gydnabod yn rhywun sydd ag anawsterau dysgu, neu sy’n agored i niwed, yn cael ei eithrio o’r system cydsyniad tybiedig.

Mark Drakeford

9

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version.

Adran 5, tudalen 4, Tabl 2, ar ôl llinell 4, colofn 1, mewnosoder –

1. Yr oedd penderfyniad gan yr oedolyn a eithrir i gydsynio, neu i beidio â chydsynio, i'r gweithgaredd mewn grym yn union cyn iddo farw.	
---	--

Mark Drakeford

10

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version.

Adran 5, tudalen 4, Tabl 2, hepgorer llinellau 5 hyd at 8, colofn 1.

Darren Millar

11A

As an amendment to amendment 11, line 2, column 1, leave out 'or persons'.

This amendment relates to the introduction of the requirement for only one appointed representative, to eliminate the possibility of disputes arising between appointed representatives.

Fel gwelliant i welliant 11, llinell 2, colofn 1, hepgorer 'neu bersonau'.

Mae'r gwelliant hwn yn ymwneud â chyflwyno'r gofyniad i benodi un cynrychiolydd yn unig, er mwyn cael gwared ar y posibilrwydd o anghydfod rhwng cynrychiolwyr penodedig.

Mark Drakeford

11

Section 5, page 4, Table 2, after line 7, column 1, insert –

2. Case 1 does not apply, the excepted adult had appointed a person or persons to deal with the issue of consent in relation to the activity and someone is able to give consent under the appointment.	
---	--

Adran 5, tudalen 4, Tabl 2, ar ôl llinell 8, colofn 1, mewnosoder –

2. Nid yw achos 1 yn gymwys, yr oedd yr oedolyn a eithrir wedi penodi person neu bersonau i ymdrin â'r mater o gydsynio mewn perthynas â'r gweithgaredd, ac mae rhywun yn gallu rhoi cydsyniad o dan y penodiad.	
--	--

Mark Drakeford

12

Section 5, page 4, Table 2, leave out lines 8 to 10, column 1.

Adran 5, tudalen 4, Tabl 2, hepgorer llinellau 9 hyd at 12, colofn 1.

Darren Millar

56

Section 5, page 4, Table 2, leave out lines 8 to 9, column 2.

This amendment relates to the introduction of the requirement for only one appointed representative, to eliminate the possibility of disputes arising between appointed representatives.

Adran 5, tudalen 4, Tabl 2, hepgorer llinellau 9 hyd at 10, colofn 2.

Mae'r gwelliant hwn yn ymwneud â chyflwyno'r gofyniad i benodi un cynrychiolydd yn unig, er mwyn cael gwared ar y posibilrwydd o anghydfod rhwng cynrychiolwyr penodedig.

Darren Millar

57

Section 5, page 4, Table 2, after line 10, column 1, insert –

2. Case 1 does not apply and the excepted adult had appointed a person to deal with the issue of consent in relation to the activity.	
---	--

This amendment relates to the introduction of the requirement for only one appointed representative, to eliminate the possibility of disputes arising between appointed representatives.

Adran 5, tudalen 4, Tabl 2, ar ôl llinell 12, colofn 1, mewnosoder –

2. Nid yw achos 1 yn gymwys ac yr oedd yr oedolyn a eithrir wedi penodi person i ymdrin â'r mater o gydsynio mewn perthynas â'r gweithgaredd.	
---	--

Mae'r gwelliant hwn yn ymwneud â chyflwyno'r gofyniad i benodi un cynrychiolydd yn unig, er mwyn cael gwared ar y posibilrwydd o anghydfod rhwng cynrychiolwyr penodedig.

Mark Drakeford

13

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version.

Adran 5, tudalen 4, Tabl 2, ar ôl llinell 12, colofn 2, mewnosoder –

	Cydsyniad person y mae perthynas gymhwysol rhyngddo â'r oedolyn a eithrir yn union cyn iddo farw.
--	---

Darren Millar

58

Section 5, page 4, Table 2, after line 10, column 2, insert –

	Consent given by the person appointed.
--	--

This amendment relates to the introduction of the requirement for only one appointed representative, to eliminate the possibility of disputes arising between appointed representatives.

Adran 5, tudalen 4, Tabl 2, ar ôl llinell 12, colofn 2, mewnosoder –

	Cydsyniad a roddir gan y person a benodir.
--	--

Mae'r gwelliant hwn yn ymwneud â chyflwyno'r gofyniad i benodi un cynrychiolydd yn unig, er mwyn cael gwared ar y posibilrwydd o anghydfod rhwng cynrychiolwyr penodedig.

Darren Millar

59

Section 5, page 4, Table 2, leave out lines 11 to 15, column 1.

This amendment relates to the introduction of the requirement for only one appointed representative, to eliminate the possibility of disputes arising between appointed representatives.

Adran 5, tudalen 4, Tabl 2, hepgorer llinellau 13 hyd at 17, colofn 1.

Mae'r gwelliant hwn yn ymwneud â chyflwyno'r gofyniad i benodi un cynrychiolydd yn unig, er mwyn cael gwared ar y posibilrwydd o anghydfod rhwng cynrychiolwyr penodedig.

Mark Drakeford

14

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version.

Adran 5, tudalen 4, Tabl 2, hepgorer llinellau 13 hyd at 17, colofn 2.

Darren Millar

60

Section 5, page 4, Table 2, after line 15, column 1, insert –

3. Case 1 does not apply and the excepted adult had appointed a person to deal with the issue of consent in relation to the activity, but no one is able to give consent under the appointment.	
---	--

This amendment relates to the introduction of the requirement for only one appointed representative, to eliminate the possibility of disputes arising between appointed representatives.

Adran 5, tudalen 4, Tabl 2, ar ôl llinell 17, colofn 1, mewnosoder –

3. Nid yw achos 1 yn gymwys ac yr oedd ur oedolyn a eithrir wedi penodi person i ymdrin â'r mater o gydsynio mewn perthynas â'r gweithgaredd, ond nid oes neb yn gallu rhoi cydsyniad o dan y penodiad.	
---	--

Mae'r gwelliant hwn yn ymwneud â chyflwyno'r gofyniad i benodi un cynrychiolydd yn unig, er mwyn cael gwared ar y posibilrwydd o anghydfod rhwng cynrychiolwyr penodedig.

Mark Drakeford

15

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version.

Adran 5, tudalen 4, Tabl 2, ar ôl llinell 17, colofn 2, mewnosoder –

	Cydsyniad person y mae perthynas gymhwysol rhyngddo â'r oedolyn a eithrir yn union cyn iddo farw.
--	---

Mark Drakeford

16

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version.

Adran 5, tudalen 4, Tabl 2, hepgorer llinellau 18 hyd at 19, colofn 2.

Mark Drakeford

17

Section 5, page 4, after line 19, insert –

'() This section does not apply to consent for a transplantation activity that involves removal of excluded relevant material (for provision in relation to which see section []).'

Adran 5, tudalen 4, ar ôl llinell 21, mewnosoder –

'() Nid yw'r adran hon yn gymwys i gydsyniad i weithgaredd trawsblannu sy'n ymwneud â thynnu deunydd perthnasol a eithrir (gweler adran [] am ddarpariaeth mewn perthynas â hyn).'

Mark Drakeford

18

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version.

Adran 6, tudalen 5, Tabl 3, ar ôl llinell 4, colofn 1, mewnosoder –

2. Mae'r plentyn yn fyw, nid oes unrhyw benderfyniad gan y plentyn i gydsynio, neu i beidio â chydsynio, i'r gweithgaredd mewn grym, a naill ai nid yw'r plentyn yn gymwys i ymdrin â'r mater o gydsynio neu mae'n gymwys i ymdrin â'r mater ond yn methu â gwneud hynny.	
---	--

Mark Drakeford

19

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version.

Adran 6, tudalen 5, Tabl 3, hepgorer llinellau 5 hyd at 11, colofn 1.

Darren Millar

20A

As an amendment to amendment 20, line 2, column 1, leave out 'or persons'.

This amendment relates to the introduction of the requirement for only one appointed representative, to eliminate the possibility of disputes arising between appointed representatives.

Fel gwelliant i welliant 20, llinell 3, colofn 1, hepgorer 'neu bersonau'.

Mae'r gwelliant hwn yn ymwneud â chyflwyno'r gofyniad i benodi un cynrychiolydd yn unig, er mwyn cael gwared ar y posibilrwydd o anghydfod rhwng cynrychiolwyr penodedig.

Mark Drakeford

20

Section 6, page 5, Table 3, after line 11, column 1, insert –

4. The child has died, case 3 does not apply, the child had appointed a person or persons to deal with the issue of consent in relation to the activity and someone is able to give consent under the appointment.	
--	--

Adran 6, tudalen 5, Tabl 3, ar ôl llinell 15, colofn 1, mewnosoder –

4. Mae'r plentyn wedi marw, nid yw achos 3 yn gymwys, yr oedd y plentyn wedi penodi person neu bersonau i ymdrin â'r mater o gydsynio mewn perthynas â'r weithgaredd ac mae rhywun yn gallu rhoi cydsyniad o dan y penodiad.	
--	--

Darren Millar

21A

As an amendment to amendment 21, line 1, column 2, leave out 'or persons'.

This amendment relates to the introduction of the requirement for only one appointed representative, to eliminate the possibility of disputes arising between appointed representatives.

Fel gwelliant i welliant 21, llinell 1, colofn 2, hepgorer 'neu bersonau'.

Mae'r gwelliant hwn yn ymwneud â chyflwyno'r gofyniad i benodi un cynrychiolydd yn unig, er mwyn cael gwared ar y posibilrwydd o anghydfod rhwng cynrychiolwyr penodedig.

Mark Drakeford

21

Section 6, page 5, Table 3, after line 11, column 2, insert –

	Consent given by the person or persons appointed.
--	---

Adran 6, tudalen 5, Tabl 3, ar ôl llinell 15, colofn 2, mewnosoder –

	Cydsyniad a roddir gan y person neu'r personau a benodir.
--	---

Darren Millar

22A

As an amendment to amendment 22, line 2, column 1, leave out 'or persons'.

This amendment relates to the introduction of the requirement for only one appointed representative, to eliminate the possibility of disputes arising between appointed representatives.

Fel gwelliant i welliant 22, llinell 3, colofn 1, hepgorer 'neu bersonau'.

Mae'r gwelliant hwn yn ymwneud â chyflwyno'r gofyniad i benodi un cynrychiolydd yn unig, er mwyn cael gwared ar y posibilrwydd o anghydfod rhwng cynrychiolwyr penodedig.

Mark Drakeford

22

Section 6, page 5, Table 3, after line 11, column 1, insert –

5. The child has died, case 3 does not apply and the child had appointed a person or persons to deal with the issue of consent in relation to the activity, but no one is able to give consent under the appointment.	
---	--

Adran 6, tudalen 5, Tabl 3, ar ôl llinell 15, colofn 1, mewnosoder –

5. Mae'r plentyn wedi marw, nid yw achos 3 yn gymwys ac yr oedd y plentyn wedi penodi person neu bersonau i ymdrin â'r mater o gydsynio mewn perthynas â'r gweithgaredd, ond nid oes neb yn gallu rhoi cydsyniad o dan y penodiad.	
--	--

Mark Drakeford

23

Section 6, page 5, Table 3, after line 11, column 2, insert –

	Consent of a person who had parental responsibility for the child immediately before the child died, or where no such person exists, the consent of a person in a qualifying relationship to the child at that time.
--	--

Adran 6, tudalen 5, Tabl 3, ar ôl llinell 15, colofn 2, mewnosoder –

	Cydsyniad person a oedd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn yn union cyn i'r plentyn farw, neu pan nad oes unrhyw berson o'r fath yn bodoli, cydsyniad person y mae perthynas gymhwysol rhyngddo â'r plentyn yr adeg honno.
--	--

Mark Drakeford

24

Section 6, page 5, Table 3, after line 11, column 1, insert –

6. The child has died and none of cases 3, 4 or 5 applies in relation to the child.	
---	--

Adran 6, tudalen 5, Tabl 3, ar ôl llinell 15, colofn 1, mewnosoder –

6. Mae'r plentyn wedi marw ac nid yw achosion 3, 4 na 5 yn gymwys mewn perthynas â'r plentyn.	
---	--

Mark Drakeford

25

Section 6, page 5, Table 3, after line 11, column 2, insert –

	Consent of a person who had parental responsibility for the child immediately before the child died, or where no such person exists, the consent of a person in a qualifying relationship to the child at that time.
--	--

Adran 6, tudalen 5, Tabl 3, ar ôl llinell 15, colofn 2, mewnosoder –

